*Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 996 (Cy. 212)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 2) 2022

*Gwnaed - - - - 26 Medi 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 29(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020([1]), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 2) 2022.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

**Y ddarpariaeth sy'n dod i rym ar 1 Hydref 2022**

**2.** Daw paragraff 22 o Atodlen 1 (cynllun blynyddol) i'r Ddeddf i rym ar 1 Hydref 2022.

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

26 Medi 2022

(**1**) 2020 dsc 1.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn a wneir gan Weinidogion Cymru yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym baragraff 22 o Atodlen 1 i'r Ddeddf ar 1 Hydref 2022. Mae paragraff 22(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Gorff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cymru ("y Corff"), cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, gyhoeddi cynllun sy'n nodi sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau yn ystod y flwyddyn. Bydd y cynllun cyntaf o'r fath yn cael ei lunio gan y Corff fel rhan o'i waith paratoi cyn arfer ei swyddogaethau o sylwedd a fydd yn cael eu cychwyn drwy orchymyn cychwyn dilynol. Mae paragraff 22(2) yn darparu bod rhaid i'r cynllun gynnwys datganiad o amcanion a blaenoriaethau'r Corff am y flwyddyn. Mae paragraff 22(3) yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i'r Corff, cyn cyhoeddi cynllun, ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'n ystyried eu bod yn briodol ynghylch ei amcanion a blaenoriaethau arfaethedig.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 24 | 8 Mawrth 2022 | 2022/208 (Cy. 66)(C. 9)) |
| Adran 26 | 8 Mawrth 2022 | 2022/208 (Cy. 66)(C. 9)) |
| Adran 12 | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66)(C. 9)) |
| Adran 19 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66)(C. 9)) |
| Adran 21 | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66)(C. 9)) |
| Adran 22 | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66)(C. 9)) |
| Atodlen 1 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66)(C. 9)) |